

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cofnodion cyfarfod 23 Tachwedd 2018 yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd.

Yn bresennol: Rheinallt Thomas (Llywydd) Catrin Haf Williams (Prifysgol CyDDS); Bryn Williams; Paul Rochester; Nerys Siddall; Irfon Roberts; Eirian Wyn; Peter Dewi Richards (cyn Lywydd); Judith Morris; Ian Morris; Aled Davies; Gethin Rhys; Martin Spain (Trysorydd); Dyfrig Rees; Peredur Owen-Griffiths; Peter Stevenson; Marc Owen; Ed Kaneen; Chris Gillham; Aled D. Jones; Vaughan Salisbury; Euros Wyn Jones; Alun Tudur; Steffan Wiliam (Cyfieithydd); Helen Jones (Ysgrifennydd)

Derbyniwyd Ymddiheuriadau: Hefin Jones; Aled Edwards; Gareth Morgan Jones; Ieuan Elfryn Jones; Meirion Morris; Ifan Roberts; Sally Thomas; George Baker

1. Croeso: Croesawyd aelodau'r Cyngor, gwsteion, ac yn arbennig Catrin Haf Williams i'r cyfarfod gan y Llywydd. Croesawyd pedwar aelod llawn newydd y Cyngor a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf.

1. Parchedig Dyfrig Rees –Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr Cymraeg. 2. Peredur Owen Griffiths, Swyddog Hwylusydd Ffydd, Trefn a Thystiolaeth Cytun a chynrychiolydd yr Eglwysi Cyfamodol. 3. Cynrychiolydd Gogledd CERhC: Parchedig Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul ac yn Weinidog ar dri enwad gofalaeth Bro Chwilog 4. Cynrychiolydd Gogledd CERhC: Mrs. Nerys Siddall, Rheolwr a Swyddog Addysg Byd Mari Jones, Llany Cil. Cynrychiolydd De CERhC: Parchedig Irfon Roberts a'r Parchedig Eirian Wyn.

2. Defosiwn: Gweddiwyd ar ddechrau'r cyfarfod gan Parchedig Ddr Peter Stevenson, Prifathro Coleg Bedyddwyr De Cymru. Cyfeiriodd y Llywydd at ei lyfr "Preaching" – "Pregethu" a gyfieithwyd yn ddiweddar gan y Parchedig Olaf Davies.

3. Cofnodion: Derbyniwyd y Cofnodion fel cofnod cywir o gyfarfod 24 Mai. Cynigiwyd gan Parchedig Peter Dewi Richards ac eiliwyd gan Parchedig Ian Morris.

4. Materion yn codi: 1. Caplaniaeth: G.Rh. Ymatebodd Eifion Howells o Ymddiriedolaeth Bwrdd Hywel Dda - bydd yn codi'r mater yn eu cyfarfod ym mis Ionawr. Bydd ymateb llawn erbyn cyfarfod mis Mai. Ymatebodd Alan Taylor o Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Caerdydd ac Aneurin Bevan drwy gydnabod eu bod hi'n anodd o ran cyllideb i hysbysebu swyddi a chael Cymry Cymraeg. Yn y dyfodol, bydd hysbyseb yn cael ei arddangos yn y 4 Tudalen.

2. Addysg – Dydy'r sefyllfa yn Lloegr heb newid.

3. Atgoffodd y Llywydd yr aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd mis Mai a Thachwedd 2019 – fel na fyddai gwrthdaro gyda phwyllgorau a chyfarfodydd eglwysig.

5. Darpariaeth Diwinyddol – Dr Catrin Haf Williams. Cyn cyflwyno Dr Catrin Haf Williams i'r cyfarfod dywedodd y Llywydd bod y pwnc wedi bod ar Agenda ers amser maith. Yn dilyn cyfarfod mis Mai, gofynnwyd trwy gynrychiolwyr yr enwadau, anfon darpariaethau cyrsiau diwinyddol yn y colegau at y Llywydd yn ystod mis Mehefin. Ysgrifennodd Hefin Jones o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, am ei obaith bydd y prifysgolion yng Nghymru wedi paratoi Cynllun Pwnc Cenedlaethol mewn Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Academaidd ym Mis Chwefror.

Ni chafwyd ymateb swyddogol gan Elfryn Jones ar ran y Bedyddwyr, Coleg Gwyn Bangor ac yn anffodus roedd Densil Morgan yn sâl ac wedi methu'r cyfarfod. Anfonwyd y darpariaethau arall mewn ebyst cyn y cyfarfod. Nodwyd hefyd nad oedd Jeremy Duff wedi gadael sefydliad Padarn diwedd mis Mehefin.

Cyflwynwyd Dr. Catrin Haf Williams yn swyddogol. Diolchodd am y gwahoddiad. Anfonwyd papurau gyda'r Agenda.

Cafwyd trafodaeth ddifyr a bywiog a chodwyd nifer o gwestiynau pwrpasol. Mae myfyrwyr Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd yn ffodus y gallant astudio Crefydd a Diwinyddiaeth a ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg oherwydd y cyswllt gyda Phrifysgol Caerdydd. Mae niferoedd y Myfyrwyr yn gwahaniaethu – 45 yno eleni. Cynnigir cyrsiau preswyl yng Ngholeg Trefeca. Mae darpariaeth yn bodoli i ddilyn cyrsiau gweinidogaethol a chaplaniaethau. Mynegwyd y byddai'n dda cynnig cyrsiau Diwinyddiaeth mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n bosibl astudio a chyfathrebu gyda Myfyrwyr drwy "Skype" ac felly ehangu niferoedd y myfyrwyr.

Holwyd a oedd eisiau 3 sefydliad bellach i addysgu myfyrwyr a fyddai am ddilyn cyrsiau gweinidogaethol? A oedd angen i golegau gystadlu â'i gilydd yn lle cydweithio? Awgrymwyd bod angen academi i ofalu bod safonau a chysiau yn cael eu achredu. Soniwyd bod sefydliad Padarn Sant yn fodern ei ddarpariaeth ac mae Anglicaniaid wedi sicrhau bod yr adnoddau ganddynt at bwrpas y 21ganrif. Mae deddfwriaeth yn newid yn flynyddol ac mae patrymau hyfforddiant yn newid.

Mynegwyd bod angen i'r enwadau gydweithio gyda'r broses hyfforddiant oherwydd mai'r enwadau sy'n gyfrifol am achredu gweinidogion.

Mynegwyd pryder fod Myfyrwyr yn mynd i golegau yn Lloegr gan nad oes darpariaeth i'w gofynion yma yng Nghymru. Gobeithir y byddant yn dod nôl i Gymru i ddysgu trwy cyfrwng y Gymraeg yn yr hir dymor. Problem pennaf y Prifysgolion ydy "cyflenwi a'r galw" - "supply & demand" a chostau. Er hynny nodwyd bod rhaid cydweithio gyda'r myfyrwyr sy'n methu mynd i fwrdd am wahanol resymau a'u cefnogi yn ymarferol. Nodwyd ei bod yn hanfodol cael system o Achredu ac Hyfforddiant. Mae diwinyddiaeth ymarferol yn bwysig a chyfarfod â phobl yw natur y gwaith a'u hyfforddi i gwrdd â'r angen – boed ysbyty, carchar, y gymdogaeth ayyb. Awgrymwyd er y trafodaethau a fu rhwng yr enwadau bod angen i berson gydlynnu darpariaeth gweinidogaethol a fyddai'n dderbyniol i'r enwadau ac edrych ar y patrymau, cynlluniau a coledu.

Bu "Bwrdd Dilysu Ecwmenaidd - Eccumenical Evaluation Board" yn bodoli dan awennau Goleg Sant Mihangel – cyn Sefydliad Padarn ond erbyn hyn wedi peidio â bod. Cytunwyd byddai'n dda ei ail sefydlu oherwydd golygai hyn ddilysrwydd ar draws yr enwadau i gyd. Ar hyn o bryd mae gan bob enwad ei fwrdd Achredu Hyfforddiant ei hunan. Mynegwyd bod angen canolbwyntio ar strwythurau'r enwadau a sut gellid cynnig darpariaeth ymarferol ac yn arbennig y gonsyrn am ddarpariaeth Gymraeg. Nodwyd nad oedd gan y CERh hwn unrhyw awdurdod ond y byddai'n gwerthfawrogi'r wybodaeth gael ei adrodd yn ôl yn ystod y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Llywydd byddai'n cael gair gyda Archesgob Cymru pan fyddai'n mynd i dderbyniad ffarwel i Carwyn Jones fel Prif Weinidog Cymru ar 11 Rhagfyr.

PWYNT GWEITHREDU 1. Cytunodd yr aelodau Sefydliad fforwm dan arweinyddiaeth Parch. Bryn Williams. 2. angen ail sefydlu'r Bwrdd Dilysu Ecwmenaidd. 3. Llywydd yn trafod gyda Archesgob Cymru bod Cyngor Eglwys Rhyddion Cymru yn gobeithio y gellir ail sefydlu Bwrdd Dilysu Ecwmenaidd

Diolchodd y Llywydd i Catrin am ei chyflwyniad a'i chyfraniad at y drafodaeth.

6. Adroddiad a Digwyddiadur y Llywydd

Anfonwyd hwn gyda phapurau'r cyfarfod ymlaen llaw. Dywedodd mai pleser oedd bod yng nghyfarfod Undeb y Bedyddwyr yn Nant Gwrtheyrn mis Mehefin. Mae'r Llywydd yn trio ymateb yn positif i wahoddiadau ac hyd yma dim ond tri mae e wedi methu. Roedd e wedi gwerthfawrogi cymryd rhan yn y

Gwasanaeth Cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol, Llandaf ar 11 Tachwedd i nodi'r Cadoediad. Y digwyddiad nesaf fydd derbyniad adeg ymddeoliad Carwyn Jones fel Prif Weinidog yn y Senedd ar 11 Rhagfyr.

Derbyniwyd llythyr gan Parch Ifan Roberts am ddogfen Gweinidogaeth Bro a'r Canllawiau a ddylid ei ddilyn cyn llunio gofalaeth newydd. Nodwyd yr angen am ddiwygio y **ddogfen "Gweinidogaeth Fro"**, a gynhyrchwyd yn 2000, a bod fersiwn wedi ei chynhyrchu gan dri o'r Ysgrifenyddion Cyffredinol yn 2016 ond nad oedd wedi ei chyhoeddi.

Pwynt Gweithredu: Cytunodd Peredur Owen Griffiths yn ei rôl fel Hwylusydd Ffydd, Trefn a Thystiolaeth CYTUN i gydlyn y gwaith yma a chynhyrchu dogfen ddwyieithog mewn cyd weithrediad â'r grwpiau perthnasol

Diwygio'r Wefan: Bu Peredur yn gweithio ar hwn a gofynnwyd i bawb edrych arno ar www.cytun.co.uk Newidiwyd y linc Diwygio'r Wefan. Diolchwyd i Gethin ac i Peredur am yr adroddiadau.

7. Adroddiadau

A. Cytun: Derbyniwyd adroddiad Bwletin Cytun gyda phapurau'r cyfarfod. Gofynnwyd i'r Cyngor i nodi'r dudalen olaf, sef problem ynghylch cau banciau a'r trafferthion o fusnesau neu'r cyhoedd yn cael mynediad at drafodiad ariannol a chael hyd i arian parod. Paratowyd llythyr gan Cytun a gwelwyd drafft ohono yn y cyfarfod. Bwriad y llythyr ydy agor trafodaeth gyda'r banciau a chynnig tri awgrym ymarferol (gweler y llythyr). Diolchwyd i Gethin am lunio hwn. Pryderwyd bod y peiriannau sy'n codi tâl yn cynyddu a'r prinder gwybodaeth yn y Gymraeg yn y banciau lleol. Awgrymwyd dylai pobl ddefnyddio eu banciau lleol yn gyson. Bydd erthygl am y pwnc yn cael ei gyhoeddi yn y 4 tudalen i sôn am hyn. Bydd Gethin yn gobeithio cyfarfod gyda uwch Swyddogion y banciau er mwyn trafod consyrn y boblogaeth yn genedlaethol.

Diolchodd Peredur i bawb a fu'n gymorth iddo adeg yr Eisteddfodau – Urdd a'r Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol. Mynegwyd pryder fod ystyriaeth i Oedfa Foreol yr Eisteddfod gael eu gynnal mewn lleoliad gwahanol i'r Pafiliwn yn y dyfodol. Pwysleisiwyd bydd trafodaeth a byddai rhaid gosod allan fod cwlwm annatod rhwng y Pafiliwn a'r Oedfa cychwyn yr Eisteddfod. Y man cywir i ddechrau Eisteddfod yw cynnal gwasanaeth ar lwyfan y Brifwyl – er bod eleni'n eithriad oherwydd lleoliad yr Eisteddfod.

B. Addysg: anfonwyd yr Adroddiad Addysg ymlaen llaw.

Canolbwyntiwyd ar pwynt 2 o'r adroddiad –**Ym mis Mehefin cyhoeddodd Estyn ei adroddiad: Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.** – Dywedodd Vaughan bod yn braf i weld adroddiad cadarnhaol. Argymhelliad olaf oedd ei fod yn bwysig bod eglurder o fewn maes Addysg Grefyddol ym maes dyniaethau.

Pwynt 1. Lle Addysg Grefyddol **yng nghwricwlwm y Dyniaethau 1.** Cyfarfu CYSAGau Gogledd Cymru yn Llandudno ym mis Medi. Cyflwynwyd fersiwn ddrafft oedd yn welliant o'r papur gwreiddiol er bod cryfderau a gwendidau mae'n gynllun da a chyffrous.

Mae consyrn bod nifer ymgynghorwyr wedi lleihau a bydd dirprwyaeth o CYSAGau Cymru yn codi'r mater gyda Kirsty Williams, Gweinidog Addysg yn mis Ionawr. Bydd yn holi pwy fydd yn arwain y cynlluniau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu i'r safonau Uchaf posibl.

2. Consyrn arall i nodi - nad oedd digon o athrawon yn cael eu cymhwyso a'u hyfforddi i ddysgu Addysg Grefyddol. Bydd angen i'r Llywodraeth ariannu hyn yn sylweddol.

3. Ar y papur ddiweddar, "Dynaethau" nodir "crefyddol" ac "anghrefyddol" bob tro. Holir beth mae hyn yn golygu yng ngwersi Addysg Grefyddol? Ai CYSAGau lleol sy'n hybu hyn neu a oes lle i boeni? Mae'n tanseilio yr hyn y mae yr Athro Donaldson wedi ei nodi ac hefyd y deddfau Addysg Grefyddol. Ym mis Ebrill bydd y ddogfen wedi ei chyhoeddi'n derfynol a thrafodir ei gynnwys yng nghyfarfod mis Mai.

4. Pwysleisiwyd gofid darpariaeth cyfrwng Cymraeg – nad ydy'r adnoddau wedi gwella. Mae athrawon cyfrwng Cymraeg yn gorfod paratoi nodiadau eu hunain a dydy'r ddarpariaeth ddim yn gyson. Dywedwyd bod trafodaethau rhwng y gweisg yng Nghymru a'r Llywodraeth. Mae cyhoeddi llyfrau fel hyn yn ddrutach ond yn elwa economi Cymru. Bydd dysgu Addysg Grefyddol ar wahân i'r dyniaethau o mis Medi. Bydd y ddeddf ddim yn newid.

CYSAG fydd yn gosod fframwaith ar gyfer Addysg Grefyddol yn y dyfodol o fewn maes llafur dyniaethau a rhaid i bob ysgol roi "sylw ddyledus" i'r pwnc wrth lunio'r cwricwlwm

Bydd ysgolion o reidrwydd yn dilyn cyfarwyddid CYSAG. Bydd ysgolion enwadaol/eglwysig yn dilyn cyfarwyddyd eu henwad.

Bydd dau gylchlythyr yn mynd allan bob chwarter 1. yn ymwneud ag addoli ii. yn ymwneud ag Addysg Grefyddol. Credir bod rhain yn faterion y dylid cael eu hystyried yn faterion arwahân. Diolchwyd i Vaughan am ei adroddiad.

ii. Enwebiadau CYSAGau: Dywedodd Gethin bod cyfrifoldeb ar CERhC i gyflwyno enwau neu fydd y llyfudd yn mynd ar goll. Roedd nifer o fylchau i'w llenwi.

1. Casnewydd: 2 le gwag – i. Gordon Creswell a ii. i'w llenwi gan EUDd/Presbyteriaid (Cynigiwyd enw- Elin Maher)

2. Mynwy: 4 lle yno – i. Peter Brain - Bedyddiwr ii Byddin yr Iachawdwriaeth iii a iv. yn wag. Mae Gethin yn awyddus i llenwi rhain yn gyflym iawn.

3. Sir Gaerfyrddin: i Parch Aled Jones ond ii (angen Bed) a iii (angen Presb.) i'w llenwi

4. Sir Benfro – 2 le gwag i (Bed) a iii (Presb). Diolchwyd i Gethin am y wybodaeth.

B Enwadau:

Yr Eglwys Fethodistaidd: Mae Parchedig Trevor Hoggard wedi cael ei apwyntio yn Weinidog yng Ngogledd Cymru a fe fydd hefyd yn Arolygydd cylchdaith Gogledd Cymru. Mae Trevor Hoggard yn wreiddiol o Seland Newydd ac yn ieithydd. Mae e'n awyddus i ddysgu Cymraeg. Bydd yn ddechrau ym mis Medi.

Bedyddwyr: Mae'r Undeb yn ceisio dilyn rheolau Rheolau Data. Mae Tîm i Gymru wedi cychwyn yn Arfon. Mae 2 ymgeisydd yn cael eu cyflweld mis nesaf gyda'r bwriad o gynnig eu hunain i'r Weinidogaeth. Yn 2019 bydd 100 mlynedd ers marw'r cenhadwr Timothy Richard ac mae cynlluniau ar y gweill i gofio amdano.

C. Trysorydd:

Trosglwyddwyd £5325.47 i goffrau CERhC oddi wrth Cangen Gogledd Cymru. Byddant yn cael eu trosglwyddo nôl i Gyngor Ysgolion Sul er mwyn sicrhau gwariant ar Medalau Gee i'r dyfodol. Bydd teulu Gee yn rhoi arian yn achlysurol i fewn i'r coffrau er mwyn bathu'r medalau. Bydd Mantolen yn dangos Cronfa Medalau Gee yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol fel rhan o gyfrifon CYS. . Mae'r Medlau yn cael eu castio'n arbennig ac felly rhaid bathu digon i sicrhau cadw costau lawr.

Mae Irfon wedi rhoi £1,000 oddi wrth Cangen y De i CERhC. Mae rhai medalau yn weddill gyda'r De. Dywedodd Irfon hefyd bod rhai adrannau o cell De Cymru yn dal yn weithgar a daw cyfraniadau oddi

wrthynt yn flynyddol. Nodwyd ei bod yn bwysig bod unrhyw **grwpiau lleol o Eglwysi Rhyddion** sy'n cyfarfod yn hysbysu a rhoi gwybodaeth o'u gweithgareddau i gynrychiolwyr y De neu Gogledd fel y mae'n briodol. Dylid gyrru unrhyw gyfraniadau ariannol at Drysorydd CERhC – Y Parch Martin Spain.

Awgrymodd y Trysorydd bydd angen codi tâl aelodaeth oddi wrth yr enwadau. Yn ein cyfarfod nesaf bydd ganddo fwy o wybodaeth i awgrymu swm. Bydd mwy o syniad ganddo ar gostau blynyddol y Llywydd erbyn hynny. Mae'r Trysorydd yn awyddus i dalu costau teithio a chostau arall unrhyw gynrychiolydd os ydynt yn dymuno. Diolchwyd i Martin am ei Adroddiad.

9. Adroddiad Parchedig Paul Rochester – Ni chafwyd adroddiad oherwydd amser iddo ddal tren i Lundain.

10. UFA: Dymunwyd yn dda i Mr Vivian Williams, Llanelli a chofiwn amdano yn ein gweddiau. Diolchwyd i Steffan Wiliam am gyfieithu. Diolchwyd i Helen am eu gwaith yn trefnu ar gyfer y cyfarfod.

11. Gorffennwyd trwy adrodd y Gras.

Gorffennwyd am 3.15.

Dyddiad Cyfarfod nesaf: 10.30 am. 23 Mai 2019 Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd.